# TAG ADRODDIADAU ARHOLWYR

## UG CYMRAEG IAITH GYNTAF (NEWYDD)

## HAF 2016

© WJEC CBAC Cyf.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

**Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF - UNED 1**

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**

**Haf 2016**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

Profiad hyfryd fu cyfarfod cymaint o bobl ifanc huawdl a deallus ledled Cymru. Diolch yn fawr am y croeso a gawsom yn yr ysgolion a diolch hefyd i'r myfyrwyr am eu cwrteisi a'u parch. Pleser clywed pobl ifanc yn trafod mor ddeallus ac yn amlwg wedi mwynhau astudio'r ddrama a'r ffilm. Rhaid canmol y brwdfrydedd a ddangosent yn eu trafodaeth. Diolch i'r ysgolion a'r Penaethiaid Pwnc am y croeso ac am sicrhau man addas ar gyfer arholi.

**Cryfderau cyffredinol**

- Dyfynnu perthnasol a chyson iawn gan ddethol gwybodaeth o'r <u>testun cyfan</u> a chroesgyfeirio
- Cymhwyso gwybodaeth i ba bynnag gwestiwn a ofynnwyd heb gyfyngu eu hunain i nodiadau
- Cadw'r cwestiwn mewn cof a dod yn ôl ato pe byddai rhywun yn crwydro
- Gallu gwneud cysylltiadau a thynnu casgliadau craff
- Atebion estynedig ac aelodau'r grŵp yn gwrando ar ei gilydd gan ddatblygu pwyntiau.

Buddiol yw cyfeirio at y modd y gall y gwahanol ganolfannau wella ar berfformiadau'r ymgeiswyr drwy:

- Sicrhau bod yr ymgeiswyr yn **gwrando** ar y cwestiynau'n ofalus ac yn **ateb gofynion y cwestiwn**
- Tuedd ar adegau i ddweud yr hyn yr oedd yr ymgeiswyr am ei ddweud heb wir ystyried y cwestiwn; hyn yn arbennig o wir am yr ail berson fyddai'n ymateb i gwestiwn mewn grŵp - rhaid gofalu **peidio â chrwydro**
- Atgyfnerthu'r defnydd o **ddyfyniadau cywir** a'u defnyddio i bwrpas
- Ymateb yn fwy hyderus i gyd-destun ac ystyr **dyfyniadau o'r testunau** yn arbennig ar y band/iau uchaf
- Cael gwell meistrolaeth ar **dechnegau arddull y testunau** yn gyffredinol

**Siwan**

Unwaith eto roedd cryfderau'r paratoi a pherfformiadau'r ymgeiswyr mor amlwg ag erioed. Gwelwyd gwell dealltwriaeth o pam na lwyddodd Siwan i anghofio am Gwilym ac o arwyddocâd chwedl Trystan ac Esyllt, dealltwriaeth o berthynas Siwan ac Alis ac Alis a Llywelyn. Llwyddodd rhai ymgeiswyr i ymateb yn wirioneddol wych gan weld yr haenau o ystyr a'u dadansoddi'n graff eithriadol. Cyfeiriai eraill at y tair act yn wybodus a chraff wrth ymateb i gwestiwn megis beth fu effaith ei hunigrwydd yn y carchar ar Siwan. Wrth drafod delweddau'n graff llwyddodd y goreuon i gyfeirio at rannau eraill o'r ddrama i ategu at eu sylwadau e.e. wrth sôn am y ddelwedd o *'fflam'* yn araith Llywelyn, roedd rhai'n gallu manylu ar ddefnydd o'r ddelwedd yng ngweddill y ddrama.



© WJEC CBAC Cyf.

**Dyma agweddau i ganolbwyntio arnynt ymhellach:**

- Gwelwyd diffyg dyfnder wrth drafod yr **olygfa rhwng Siwan a Gwilym**. Dylai ymgeiswyr allu trafod dull Gwilym o swyno Siwan; beth yn union yw dadleuon gwleidyddol Siwan sy'n ei hatal rhag ildio i'w serch? Dylai rhai ymgeiswyr roi mwy o sylw i'r union eiriau.
- Dylid rhoi cyfle i **gymharu araith** Gwilym Brewys sy'n llawn gweniaith a gormodiaith gydag araith Llywelyn Fawr.
- Wrth drafod y **crogi**, mae angen mwy o fanylder am y gwrthdaro rhwng y Cymry a'r Ffrancwyr, ymateb y dorf a'r geiriau a genid gan y côr.
- Mae'r ddrama yn llawn **cyfeiriadaeth glasurol** ac felly mae angen deall cefndir ac ystyr cyfeiriadau megis Casandra, Ffransis, Helen o Droea, Awstin.
- Wrth drafod y darlun o **gymdeithas y cyfnod** yn y drydedd ganrif ar ddeg mae cyfle i ystyried arferion cymdeithasol / priodasol, dau ddiwylliant yn cyd-redeg, gwleidyddiaeth y cyfnod ac arferion crefyddol (Catholig). Fe ddylai'r goreuon eu trafod yn annibynnol.
- Dylai'r goreuon hefyd allu darlunio'r **traddodiad Cymreig** a geir yn y ddrama o berspectif Alis a Llywelyn.
- Dylid parhau i roi sylw i'r delweddau sy'n **araith Llywelyn** gan roi pwyslais ar **ddadansoddi**. Cafodd nifer eleni drafferth i esbonio'r ddelwedd o Siwan fel *bedwen arian ir* gan fethu â gweld y cyswllt gyda *bedwen Calan Mai* (Alis). Yn yr un modd amrywiol iawn oedd ymateb yr ymgeiswyr wrth drafod **ieithwedd y cymeriadau**. Mae modd rhoi mwy o sylw i **dechnegau dramatig** e.e. dychweliad Llywelyn a'r effeithiau sain yn ddiffyg gyda llawer eleni.
- **Diffyg tystiolaeth ac enghreifftio** yw'r maen tramgwydd pennaf wrth ymdrin ag iaith ac arddull ac o gofio bod y ddrama yn gyforiog o eironi, gwirebau, coegni, delweddau, cyflythrennu, odli mewnol, ailadrodd, symbolau a.y.b mae trafod iaith ac arddull yn gwestiwn sydd angen ei gryfhau ar draws yr ystod mewn rhai canolfannau. Oherwydd methiant i ddyfynnu câi nifer eu cyfyngu i bwyso ar rai enghreifftiau amlwg yn unig.
- Wrth drafod y **farddoniaeth yn y ddrama**, nid oedd nifer yn gallu mynd y tu hwnt i ddweud mai drama fydryddol oedd hi. Ni lwyddwyd i roi enghreifftiau a thrafod nodweddion yr iaith farddonol.
- Byddai'n fuddiol i ganolfannau ddarllen erthyglau megis Dafydd Glyn Jones ar ethos ei ddramâu er mwyn deall y **cysyniadau am *anrhydedd* a *balchder*** gan mai siomedig ar y cyfan yw'r ymdriniaeth o'r themâu ar wahân i ddiffyg cyfathrebu a serch a chariad.

**Y Tŵr**

Er bod llai o ganolfannau yn astudio'r ddrama hon yn gyffredinol cafodd yr hyfforddeion hwyl dda arni yn amlygu addysgu da a phrocio gofalus wedi sicrhau bod y trafodaethau yn drylwyr a gwreiddiol. Roedd y goreuon wedi eu paratoi yn ofalus iawn yn egwyddorion Theatr yr Abswrd ac roedd syniadaeth Dewi Z a Martin Esslin wedi eu deall yn iawn ganddyn nhw. Roedd dyfyniad Goronwy Owen yn gweithio'n dda gyda'r goreuon hefyd. Braf oedd gwrando ar ymatebion yr ymgeiswyr yn trafod beth oedd ar frig y tŵr a beth oedd y cryfderau a gwendidau ym mhersonoliaethau'r cymeriadau. Roedd y cwestiynau am fateroldeb a diffyg cyfeiriad y prif gymeriadau yn cael eu hateb yn glir.

**Dyma agweddau i ganolbwyntio arnynt ymhellach:**

- Gellir manylu mwy wrth drafod y cyfarwyddiadau a'r defnydd o'r ffilm.
- Gellir rhoi mwy o sylw i himwor.
- Iaith ac arddull – eto, mae lle i gynnig mwy o enghreifftiau ac i drafod effeithiolrwydd a phwrpas yn llawnach.



© WJEC CBAC Cyf.

**HEDD WYN**

Cafwyd trafodaethau da iawn ar y ffilm ar draws y rhychwant graddau ac mae'n amlwg ei bod yn ffilm sy'n llwyddo i afael yn nychymyg yr ymgeiswyr a hefyd yn llwyddo i gyffwrdd ynddynt yn enwedig y golygfeydd o'r lladdfa yn y ffosydd. Ymhlith y cryfderau roedd y darlun o aelwyd Yr Ysgwrn a Thrawsfynydd ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, dylanwad y merched ar Ellis ynghyd â datblygiad Ellis yn ystod y ffilm. Difyr iawn oedd clywed ymateb yr ymgeiswyr i'r cwestiwn ai cymeriad gwan oedd Ellis yn gwrthod wynebu rhyfel.

Roedd nifer o ganolfannau yn astudio'r ffilm am y tro cyntaf ac efallai nad oedd rhai ymgeiswyr wedi gweld arwyddocâd pethau'n llawn bob tro ac o'r herwydd heb roi sylw i olygfeydd sy'n cynnwys deialog bwysig. Rhaid gwylio hefyd nad yw'r ymgeiswyr yn eistedd yn ôl yn ormodol wrth drafod y ffilm heb sicrhau y manylder a'r treiddgarwch angenrheidiol.

**Agweddau i ganolbwyntio arnynt:**

- Er bod ymgeiswyr yn cyfeirio at dechnegau ffilmio, ar y cyfan carem weld mwy o **feistrolaeth ar derminoleg.**
- Roedd y drafodaeth am **gerddoriaeth** yn arbennig yn y golygfeydd o'r ffosydd yn arwynebol. Disgwylir mwy am effaith cerddoriaeth operatig symffoni rhif 5 Mahler a'r naws a gaiff ei greu. Yn yr un modd cafwyd diffyg dealltwriaeth o arwyddocâd y caneuon MYFANWY a 'HE WAS DESPISED' a'r cyswllt rhwng y ddwy gân.
- Cyfle i fanylu wrth gyfeirio at **olygfeydd penodol** gan drafod technegau, dyfynnu, gweld ac esbonio arwyddocâd, a hynny'n enwedig wrth ymateb i olygfeydd megis yr un ar y bont yn y glaw gyda Mary Catherine; golygfa'r recriwtio; canu yn y dafarn (angen gwrando ar y geiriau'n fwy gofalus efallai); y ddwy olygfa yn y cae gwair yn Yr Ysgwrn; ymweliad Mr Curney, y Swyddog Rhyfel.
- Câi rhai drafferth i drafod **rhagrith crefydd** yn y ffilm; yn aml roedd angen aralleirio ac esbonio ystyr geiriau megis 'rhagrith' a 'dadrith'.
- Mae angen rhoi cyfle i ymgeiswyr ystyried ymhellach ai **ffilm gwrth Seisnig** yw hi. Cafwyd prinder tystiolaeth o ran golygfeydd lle ceir yr ymdeimlad o wrth Seisnigrwydd e.e. yn y dafarn, y darlun o swyddogion y fyddin, y pwyslais ar Brydeindod, y naws jingoistaidd.  Eto mae cyfle i gyfeirio at olygfeydd lle gwelwn y gwrthwyneb sy'n tanlinellu'r tristwch dirdynnol.
- Roedd ymdriniaeth yr ymgeiswyr canolig o **strwythur y ffilm** yn ansicr.
- Er bod yr haen ganolig ac is yn gallu cyfeirio at y **defnydd symbolaidd o flodau** mae disgwyl iddynt ddadansoddi ymhellach eu harwyddocâd.
- Mae cyfle i ymgeiswyr yr haen uchaf roi mwy o sylw i'r **farddoniaeth gaiff ei sibrwd.** Er bod rhai'n gallu dyfynnu eleni a chlymu hynny gyda'r hyn a welwn roedd ymgeiswyr eraill mewn rhai canolfannau yn aneglur ynghylch yr awdl e.e. yn dweud mai rhan o'r Awdl oedd y gerdd Rhyfel a daflwyd i'r dŵr! Hefyd, mae angen iddynt wybod bod rhannau o'r awdl wedi eu hysgrifennu o safbwynt Merch y Drycinoedd – felly, mae'n rheswm arall pam mae'r sibrwd ar faes y gad yn addas. Ar adegau cymysglyd oedd yr esboniadau ynghylch Arianrhod / Merch y Drycinoedd. Tybed a oes cyfle i'r goreuon yma fynd y tu hwnt i'r syniad mai ymgorfforiad o'i ferch ddelfrydol oedd hi? Wrth gwrs mae hyn yn gywir ond… yn llawer, llawer mwy na hynny.
- Câi nifer drafferth i wybod y **gwahaniaeth rhwng 'rhamantus' a 'rhamantaidd'** – byddai'r ymgeiswyr yn elwa o ddeall beth yw 'rhamantiaeth'. Tueddwyd i sôn am berthynas Ellis gyda'r merched heb ystyried ei gysylltiad â byd natur, y tirlun, y ffaith ei fod yn *'gweld'* pethau mewn ffordd wahanol, pwysigrwydd yr awen iddo, datblygiad ei farddoniaeth. Mae rhain i'w disgwyl yn y band/iau uchaf.

Diolch o galon am eich ymroddiad ac am ysbrydoli'r hyfforddeion i fwynhau llenyddiaeth a llunyddiaeth.



© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF - UNED 2**

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**

**Haf 2016**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**Cyffredinol**
Braf gweld nad oedd symud i dasgau a chynllun marcio'r fanyleb newydd wedi bod yn ormod o gur pen i ganolfannau. Derbyniwyd gwaith o safon ac ôl gofal o'r brig i'r gwaelod. Ymysg y tasgau gwelwyd enghreifftiau o waith gwirioneddol wych a rhyfeddir eto at ddawn ambell ddisgybl a gallu'r athro i feithrin y ddawn honno. Aseswyd y gwaith yn ofalus; roedd y marciau'n agos ati ar y cyfan er bod sawl safonwr wedi gostwng ychydig ar y marciau oherwydd gwallau iaith. Roedd pob tasg wedi ei marcio a'i hanodi a'r sylwadau gorau yn cyfiawnhau'r marc ddyfarnwyd yn effeithiol.

**Gweinyddol**
Cyrhaeddodd y ffolios yn brydlon a threfnus. Roedd ambell gamgymeriad wrth drosglwyddo marc o'r dasg i'r daflen flaen ac o'r daflen flaen i'r cyfrifiadur a nododd mwy nag un safonwr nad oedd y taflenni blaen wedi eu llenwi'n iawn: Rhaid cofio nodi dyddiad y dasg a'r ffurf ddewiswyd. Cofiwch hefyd roi enw'r ymgeisydd ar y ddwy dasg.

**Tasg 1**

Mae'r fanyleb yn gofyn am ysgrifennu estynedig ar un o'r ffurfiau a enwir. Pwysleisir y gair 'estynedig' yma gan i un safonwr dderbyn sawl tasg oedd o dan y 1000 o eiriau a bennir yn y fanyleb. Roedd cryn edrych ymlaen i weld pa mor fentrus fu canolfannau ac ymgeiswyr wrth droi llaw at y ffurfiau newydd ond siomedig oedd gweld mai prin iawn oedd y tasgau hynny. Ar un llaw rhaid derbyn bod rhyddid i'r ymgeiswyr ddewis unrhyw ffurf y dymunant ond hoffwn bwysleisio'r angen i roi **dewis** i'r ymgeisydd; mae ambell ganolfan y parhau i osod yr un ffurf i bawb a gwendid yw hyn gan nad yw'n ystyried y ffaith bod pob unigolyn â'i gryfderau ei hunan. Efallai bydd mwy yn mentro cynnig y ffurfiau newydd ar ôl gweld enghreifftiau o'r tasgau yn y flwyddyn academaidd nesaf. Dyma air am bob ffurf.

**Pennod gyntaf o nofel**: Dyma oedd dewis nifer fach o ymgeiswyr; mae'n ffurf digon anodd gan fod angen digon i ddal diddordeb cychwynnol y darllenydd yn ogystal â digon i awgrymu y byddai'n werth darllen gweddill y nofel. Fe wnaed hynny'n llwyddiannus gan rai tra bo angen i eraill weithio'n galetach ar hau hadau llinynnau stori y gellid eu datblygu ymhellach yng ngweddill y nofel.

**Erthygl olygyddol / ysgrif i bapur newydd / adroddiad newyddiadurol**: Eto, prin oedd yr enghreifftiau ond fe gafwyd rhai. Nid oedd prinder pynciau trafod gyda'r Undeb Ewropeaidd a phêl-droed yn cael sylw amlwg. Roedd cynnwys y gweithiau'n llwyddiannus a chywir ar y cyfan, ond yr hyn oedd ar goll gan rai oedd yr ymwybyddiaeth hollbwysig o gynulleidfa. Mae'n RHAID i arddull y dasg fod yn ddifyr a darllenadwy, ac mae'n rhaid cynnal diddordeb y darllenydd, boed hynny drwy ddefnydd o ddychan, hiwmor neu rethreg. Cofiwch fod yr elfen greadigol yn hawlio lle yn y ffurf ac y dylai teimladau a barn bersonol fod ymhlyg yn y gwaith hefyd. Anogwch yr ymgeiswyr i feddwl am deitl bachog i'r gwaith ac i osod y gwaith mewn modd broffesiynol, addas i gylchgrawn neu bapur newydd.



© WJEC CBAC Cyf.

**Stori fer / Dyddiadur**: Dyma'r dewis mwyaf poblogaidd o ddigon. Cafwyd amrywiaeth o destunau gyda 'Croesffordd' a 'Caethiwed' yn destunau poblogaidd a braf gwybod i sawl un o'r tasgau brofi llwyddiant yn yr Urdd hefyd. Pwysleisir pwysigrwydd rhoi teitl addas i'r gwaith; prin oedd y gweithiau heb deitl eleni, ond sylwyd sut y gallai meddwl yn ofalus am deitl gwreiddiol ysbrydoli ymgeiswyr. "Nid oedd ond un bluen yn chwifio yn y gwynt" oedd un o'r teitlau mwyaf trawiadol ac fe esgorodd ar ymateb creadigol hollol wahanol o fewn un dosbarth.

Roedd ymwybyddiaeth ymgeiswyr o'r angen i amrywio'r arddull er mwyn cynnal diddordeb cynulleidfa yn amlwg. Ar frig yr ysgol gwelwyd disgrifio gafaelgar ac ysgrifennu cynnil, awgrymog. Nid oedd yr un cynildeb i'w weld yn yr ail a'r trydydd fand ond roedd dealltwriaeth o'r angen i ddefnyddio troadau ymadrodd yn glir er eu bod yn amrywio o ran llwyddiant. Ar draws yr ystod mae angen bod yn ofalus rhag pentyrru ansoddeiriau'n ormodol – mae posibl ei gorwneud hi!

Gwallau iaith oedd maen tramgwydd ambell dasg; ar y brig gwelwyd iaith gyfoethog a defnydd hyderus o dafodiaith a oedd, yn ôl un safonwr, "yn bleser ei ddarllen." Yn is lawr, roedd gwallau esgeulus a diffyg gafael ar amser y ferf yn gostwng safon y gwaith. Gosodwyd sawl tasg yn y band cyntaf er bod gwallau iaith niferus yn britho'r gwaith; cytunir bod angen gwobrwyo cynnwys da ond ni ddylid anwybyddu safon yr iaith chwaith. Erfynnir eto eleni ar ymgeiswyr i wirio a golygu'i gwaith cyn ei gyflwyno er mwyn cywiro gwallau esgeulus ac hyd yn oed ambell wall teipio

**Portread**: Dyma'r ffurf wannaf llynedd ond gwelwyd peth gwelliant eleni. Cafwyd enghreifftiau o bortreadau annwyl a didwyll oedd yn darlunio a dehongli cymeriad yn gynnil a chofiadwy. Ar y llaw arall, cafwyd eto bortreadau oedd yn llawer rhy fyr ac ambell un oedd yn bodloni rhestru manylion bywgraffiadol am yr unigolyn.

**Ymson**: Eto, darllenwyd sawl enghraifft dda o'r ffurf hwn ond gwelwyd ychydig mwy o broblemau nag arfer hefyd. Mae'n rhaid trwytho'r ymgeiswyr yn yr angen i gynnal llif yr ymwybod yn y ffurf; roedd tuedd i fynd i esbonio ac egluro ac mewn rhai achosion i droi i ysgrifennu yn y gorffennol neu'n storïol. Gresyn na fyddai athrawon yn dychwelyd tasgau i'r ymgeiswyr os ydynt wedi colli eu ffordd er mwyn caniatáu iddynt edrych ar eu gwaith eto cyn iddo gael ei farcio. Gwelwyd enghreifftiau o ysgrifennu ymsonau mwy nag un cymeriad a nododd y safonwr bod hyn wedi cynnig golwg well ar sefyllfa, berthynas neu brofiad unigolyn.

**Sgript**: Braf oedd gweld ymgeiswyr yn troi llaw at y ffurf hwn gan ei fod yn aml yn arwain ar waith llwyddiannus. Dehonglwyd straeon yn grefftus gan ymateb yn greadigol a gwreiddiol. Hoffem weld amrywiaeth ehangach o dechnegau ffilm ar brydiau a gwell ymdrech i gysylltu golygfeydd. Gan fod cyfyngiad geiriau o 2000 bellach mae'n bwysicach nag erioed i ymgeiswyr werthfawrogi pŵer golygfa ddiddeialog.

**Cyfres o flogiau / Hunangofiant** – Ni welwyd enghreifftiau o'r ddau ffurf hwn.

### Tasg 2

Fe draethwyd neu draddodwyd ar destunau oedd yn amrywio o Brexit i broblemau cefn gwlad, ymateb i ffoaduriaid i hawliau merched yn y gweithle. Roedd yr ymgeiswyr, ar y cyfan, yn ymateb yn well os oedd meddwl gofalus tu ôl i eiriad y traethawd neu'r araith – gosodiad dadleuol neu gwestiwn yn hytrach na gosodiad moel fel 'Cydraddoldeb' neu 'Y Gosb Eithaf'. Gocheler rhag dewis testun rhy eang; mae 'Dyfodol Cymru', 'Dyfodol Cefn Gwlad' a 'Trosedd a Chosb' yn enghreifftiau o destunau oedd yn llawer rhy eang i'w taclo mewn un gwaith dan amodau amser a'r canlyniad oedd trafod arwynebol heb gyfle i ddatblygu dadleuon yn llawn.



Ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Gwelwyd gafael gadarn ar ffurf y traethawd er y byddai araith wedi gweddu i ambell ymgeisydd oedd â thân yn ei fol! Yn yr un modd, roedd ambell areithiwr yn eithaf ansicr o ble'r oedd yn sefyll ar ei destun ac felly'n ei chael yn anodd perswadio'i gynulleidfa o ddim; byddai traethawd wedi gweddu'n well yma. Gwelwyd defnydd o rethreg yn yr areithiau er bod angen osgoi cwestiynau rhethregol mor arwynebol â 'Beth yw eich barn chi?'

Roedd ôl ymchwil ar waith yr ymgeiswyr a'r rheiny oedd wedi dewis testun cyfoes yn gallu manteisio'n llawn ar drafodaethau cyfredol yn y wasg. Nododd un safonwr y dylai rhai ymgeiswyr ddarllen ffynonellau ychydig mwy estynedig er mwyn llunio dadleuon mwy cymhleth a nododd safonwr arall bod ambell ymgeisydd yn colli hygrededd gan na chyfeiriwyd at ffynhonnell y wybodaeth. Rhoddwyd sylw i wrthddadleuon er bod testun a theitl ambell ymgeisydd wedi gwneud hyn yn anodd. Roedd eraill yn bodloni ar gyffwrdd gwrthddadleuon heb eu datblygu'n llawn. Arfer dda yw anodi gwaith gyda 'b' (barn), 't' (tystiolaeth), 'cg' (croesgyfeirio) a 'g' (gwrthddadl) gan ei fod o gymorth wrth ddod i farn. Gwobrwywyd ambell dasg yn llawer rhy hael gan fod yr ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth ar draul mynegi barn; byddai anodi pwrpasol wedi bod o gymorth yma.
Ar wahân i wallau iaith arferol, nodwyd gan y safonwyr bod gorddefnydd o 'mae' yn hytrach na defnyddio berfau cryno i aeddfedu'r arddull. Roedd paragraffau hirfaith yn wendid arall.

Gobeithiaf y bydd pob canolfan yn darllen a rhoi sylw manwl i'w hadroddiad unigol. Sylwadau cyffredinol sydd yma ond mae'r adroddiadau unigol yn cynnig sylwadau penodol i'r ganolfan dan sylw. Hoffwn ddiolch o galon i'r safonwyr am eu gwaith caled ac i chithau fel athrawon am baratoi'r ymgeiswyr cystal ar gyfer yr uned hon.


© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF - UNED 3**

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**

**Haf 2016**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

Braf gweld nad oedd paratoi ar gyfer yr Uned hon wedi bod yn ormod o faich i ganolfannau. Mae'r fanyleb newydd eleni wrth gwrs wedi rhoi cyfle i ymgeiswyr nid yn unig astudio cerddi gwahanol o'r ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain ond hefyd ymarfer defnyddio'r iaith yn gywir. Fodd bynnag, er newid patrwm y cwestiynau, yn gyffredinol ni welwyd bod llawer o wahaniaeth yn safon atebion Adran A nag arfer.

Y gamp yn Adran A oedd darllen gofynion y cwestiynau'n ofalus a bu hynny'n faen tramgwydd i rai ymgeiswyr. Mae dealltwriaeth o dermau gramadeg yn parhau'n greiddiol i'r addysgu a'r dysgu a'r nod yw sicrhau bod deall nodweddion gramadegol y Gymraeg yn gymorth wrth gyfansoddi.

Dilynwyd patrwm cwestiynau'r papur enghreifftiol yn fwriadol eleni ond rhaid nodi y gall y cwestiynau hyn amrywio yn y dyfodol. Y nod yw gosod cwestiynau cyfansawdd yn cynnwys gwahanol fathau o ymarferion ieithyddol sy'n rhoi pwyslais ar gywirdeb ieithyddol.

Dyma rai sylwadau all fod o gymorth:

**Cwestiwn 1a**

- **'Gwelwyd' / 'Ymwelaf -** Pan gollwyd marciau wrth ddefnyddio'r berfau hyn mewn brawddegau roedd hynny'n bennaf gan nad oedd yr hyfforddeion naill ai'n defnyddio rhagenw priodol er mwyn dynodi person y ferf neu nodi amser y ferf. Gwelwyd rhai yn nodi goddrych ar ôl y ferf amhersonol.
- Achosodd **'y gellir'** fwy o anhawster. Roedd y rhan fwyaf wedi deall ei fod yn cychwyn cymal ond aed i ddyfroedd dyfnion yn ail gymal y frawddeg.

**Cwestiynau 1b**

- Does dim rheswm nad yw'r ymgeiswyr yn gallu enwi'r treigladau yn gywir yn (i). Roedd nifer helaeth yn adnabod y rhagenw, ond roedd nifer yn anghofio nodi mai'r gwrywaidd sydd yma, ac o'r herwydd yn colli marc gan nad yw'r benywaidd yn peri'r un treiglad.
- (i) Prin oedd y rhai a lwyddodd i nodi 'â' fel treiglad a gâi ei achosi oherwydd cysylltair.
- (ii) Er mai rhagenw dangosol oedd y maen tramgwydd yma, collodd nifer farc oherwydd iddynt nodi berf amser gorffennol yn hytrach na presennol.
- (iv) Roedd nifer heb ddeall mai **dau negydd** oedd ei angen yma. Cafwyd ambell ymgais lle defnyddiwyd ansoddeiriau hollol wahanol. Y prif wall a gollodd lawer o farciau oedd *'a ni chaiff'* yn hytrach nag *'ac ni chaiff'* ar gychwyn yr ail gymal
- (v) Cymysg fu'r ymateb yma, nifer yn llwyddo ond eraill yn methu â defnyddio'r rhagenw perthynol cywir nac yn rhedeg yr arddodiad.



© WJEC CBAC Cyf.

- (vii) Y nod yma yw meithrin sgiliau ysgrifennu cywir a'r gofynion wrth gwrs yw **amrywio'r brawddegau** ac **uno brawddegau**. Eleni y gamp oedd ailysgrifennu neges e-bost. Gwelwyd ysgrifennu graenus a chryno gan nifer a lluniwyd negeseuon yn llifo'n naturiol. Fodd bynnag aeth ambell un i gors yn hollol ddiangen, rhai yn hepgor rhannau o'r neges, rhai'n newid ystyr y neges, rhai'n ysgrifennu brawddegau hynod glogyrnaidd. Mor aml y gwelwyd brawddeg megis *'Gennym bythefnos cyn y sioe.'* Dylid annog yr ymgeiswyr i ddarllen y darn cyfan cyn bwrw iddi. Y gwendid pennaf oedd ailadrodd geiriau'n ddiangen a chamsillafu/camdreiglo wrth gopïo o'r gwreiddiol.

Gwallau iaith oedd maen tramgwydd pennaf rhai o atebion yr isgwestiynau uchod a hyn yn ei dro yn gostwng y safon.

**Adran B**

Cafwyd traethodau llawer hirach eleni yn sgil gallu'r ymgeiswyr i gwblhau Adran A yn gyflymach, mae'n debyg. Yn gyffredinol teimlir bod gan yr ymgeiswyr drwyddi draw well syniad o'r cerddi a braf gweld dealltwriaeth dda ohonynt, yn arbennig felly'r cerddi newydd. Ychydig iawn oedd wedi cymysgu cerddi ac roedd mwy yn dyfynnu'n bwrpasol a hynny'n gyson.

Yn gyffredinol cafwyd ymateb pwrpasol i'r ddau gwestiwn – y ddwy thema yn amlwg wedi apelio. Roedd y goreuon yn arddangos gwybodaeth dreiddgar am y cerddi, yn dyfynnu'n berthnasol ac yn cymharu'r cerddi'n ddeallus. Roedden nhw'n amlwg wedi gallu cynllunio'u traethodau a pherthnasu'r wybodaeth oedd ganddynt i ateb gofynion y cwestiwn.

**Cryfderau**

- Mwyafrif yn cadw'r cwestiwn mewn cof yn gyson
- Trafod arddull yn gyson ac yn bwrpasol, gan enwi technegau a chymhwyso'n effeithiol wrth ateb y cwestiwn
- Dyfynnu priodol a chywir ar draws yr ystod
- Mwyafrif yn strwythuro'n effeithiol ac yn cynnwys paragraff agoriadol a pharagraff clo

**Gwendidau**

- Ambell draethawd hynod ddeallus ond yr ymdriniaeth o arddull y cerddi yn brin
- Diffyg ymdrech i gymharu safbwyntiau'r beirdd

**Cywirdeb iaith:**

- **Cenedl enwau:** roedd *tri cerdd* yn frith a gwallau megis *cerdd hwn/dau linell/ cymdeithas hwn/swydd hwn*
- **Camsillafu:** *treiglad llaes (llais), traethiadol (treithiadol) cyffrous (cyffroes)*
- Problem fawr eleni oedd **LLAWYSGRIFEN** - hyn wrth gwrs yn tarfu ar rediad ac ystyr traethawd ac yn peri anhawster mawr i'r arholwyr wrth ddarllen, dehongli a sicrhau tegwch
- Diffyg **paragraffu**
- Mae athrawon wedi annog dysgwyr i ddefnyddio berf fel *'egyr'*. Yn anffodus, nid yw pawb wedi deall sut yn union i wneud hynny, gyda brawddegau fel '*Caiff agwedd y bardd tuag at annhegwch a thriniaeth y rhyfel tuag at milwyr ei weld o'r cychwyn cyntaf, wrth i'r gerdd egyr.'*
- Cymysgu 'tebygrwydd' a 'thebygolrwydd'



© WJEC CBAC Cyf.

**Traethawd (a)** '*Y Meirwon'* oedd y gwannaf ac ychydig oedd wedi cydnabod bod hon yn gymdeithas oedd yn perthyn i amser gwahanol. Ar adegau nid oedd cyd-destun hanesyddol y gerdd yn gwbl glir. Gellid bod wedi cyfeirio llawer mwy at ddylanwad y diwydiant ar y gymdeithas a phrin oedd sosialaeth yn cael sylw. Ychydig a lwyddodd i gyfleu'r ymateb i'r dioddefaint o ran gwleidyddiaeth a chrefydd.

Roedd eu gafael ar y ddwy gerdd arall yn dda a *'D.I.Y.'* yn arbennig yn rhagori. Mae cyfle yn B*eaufort, Blaenau gwent, mewn gwyrdd'* i fanylu fwyfwy ar ran gyntaf y gerdd ble cymerir dirywiad y Gymraeg â'r dirywiad yng nghyflwr y cerrig beddau. Cafwyd dealltwriaeth dda o'r cysyniadau yn sicr yn y cerddi newydd ond ar brydiau roedd angen mwy o fanylder er mwyn codi'r safon.

Collodd rhai gyfle i gymharu cymdeithas Gwenallt a chymdeithas Grahame Davies o ran y berthynas agos a fodolai rhwng teuluoedd y gweithwyr ym merw'r cyfnod diwydiannol a'r agwedd unigolyddol a wêl G.D. yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol.

**Traethawd (b)** Yma eto, roedd eu gafael ar '*Aneirin'* a '*Cân y Milwr'* yn well na '*Preseli'* o ran eu bod yn gallu perthnasu'r ddwy gyntaf i'r cwestiwn ond ychydig oedd yn gallu gwir berthnasu heddychiaeth Waldo i'w fagwraeth. Doedd prin dim sôn am yr '*annibyniaeth barn',* am ddelwedd y tŷ fel symbol o warineb gan Waldo ac mai drwy '*ffenestr'* y Preseli yr oedd o'n gweld y byd. Prin oedd y rhai a gyfeiriai at y gerdd fel cerdd brotest yn erbyn bwriad y weinyddiaeth rhyfel i godi maes ymarfer rhyfel o amgylch ardal y Preseli. Gwelwyd peth camargraff gan garfan o ddysgwyr wrth iddynt ddehongli *'un llef, pedwar llais' fel soprano, alto, tenor a bas!*' Yma y gwelwyd mwyaf o broblem perthnasu'r gerdd i'r cwestiwn.

Mae'n amlwg fod *'Cân y Milwr'* wedi apelio a chafwyd nifer o ymatebion deallus a'r dehongli'n gyffredinol dda ar draws yr ystod gallu.

Eleni gwelwyd mwy o ddryswch na'r arfer wrth ddehongli'r gerdd *'Aneirin'* gydag ystyr a neges y bardd ar brydiau yn mynd ar goll. Er bod nifer wedi dangos edmygedd ILl o'r newyddiadurwr, ychydig a fentrodd egluro'r clo. Roedd y pontio rhwng yr Aneirin hanesyddol a'r newyddiadurwr modern yn amwys gan nifer fawr. Yn wir, cafwyd camddehongliadau o rôl y newyddiadurwr.

Sylwadau cyffredinol sydd yma wrth gwrs ond gobeithio y byddwch fel canolfannau yn rhoi sylw manwl i'r pwyntiau sydd wedi codi eleni. Hoffwn ddiolch o galon i'r arholwyr am eu gwaith ac i chwithau fel athrawon am baratoi'r ymgeiswyr gystal ar gyfer yr arholiad eleni. Braf gweld bod y cerddi newydd wedi cydio ac yn cynnig her newydd.



© WJEC CBAC Cyf.

© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

ⓗ WJEC CBAC Cyf.